A joint venture project being developed by RWE

Fferm Wynt Alltraeth

# AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm



# cylchlythyr

## Haf 2025

Gyda'r paratoadau yn y cyfnod cyn y gwaith adeiladu yn parhau, yn ogystal â'n gwaith ym maes sgiliau ac addysg, mae tîm y prosiect wedi bod yn siarad â chyflenwyr a chynrychiolwyr ledled Cymru a'r DU ehangach.

Yn y cylchlythyr hwn cewch wybodaeth am y cynlluniau y mae Awel y Môr a chydweithwyr RWE wedi bod yn rhan ohonynt, gan gynnwys ymweliadau ysgolion, digwyddiadau'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi, yn ogystal ag ymweliad gan ddau AS o Gymru i ddathlu 10fed pen-blwydd datblygiad ynni adnewyddadwy mwyaf Cymru.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y prosiect neu sut y gallai eich busnes gymryd rhan, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm - ceir manylion cysylltu ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.



# Timau RWE ac ASau Cymru yn dathlu degawd o gynhyrchu ynni i ogledd Cymru

I ddathlu deng mlynedd ers ei hagor, croesawodd Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr ynghyd â chydweithwyr o Awel y Môr AS Llanelli, y Fonesig Nia Griffith ac AS Dwyrain Clwyd, Becky Gittins, i weld y tyrbinau yn agos.

Meddai Lara Debenham, Rheolwr Rhyngwyneb Peirianneg Awel y Môr: "Rwyf bob amser yn ddiolchgar am gyfle i ymweld â'r tyrbinau. Mae'n eich atgoffa pa mor drawiadol yw'r dechnoleg, a bod yr hyn rydych chi'n ei wneud o ddydd i ddydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i leihau ôl troed carbon a dibyniaeth ar danwydd ffosil gogledd Cymru.

"Mae Gwynt y Môr bellach wedi bod yn gweithredu ers 10 mlynedd ac mae wedi bod yn ffynhonnell gyson o ynni a swyddi i'r ardal. Mae'n gyffrous bod yn rhan o ddatblygiad newydd, Awel y Môr, a fydd yn adeiladu ymhellach ar hyn."

Mae prosiect ynni adnewyddadwy Gwynt y Môr yn cynhyrchu 576 megawat (MW) gyda 160 o dyrbinau a hwn yw'r prosiect mwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Pan gafodd ei sefydlu ym mis Mehefin 2015, hon oedd yr ail fferm wynt fwyaf yn y byd ar y môr.

Ers hynny, mae'r prosiect wedi dod yn enghraifft o gynhyrchu pŵer glân, gan greu swyddi medrus hirdymor o fewn y cwmni ac ar draws ei gadwyn gyflenwi, gan ddatgloi buddsoddiadau economaidd sylweddol i gymunedau a chwmnïau Cymru fel ei gilydd.



Staff RWE gyda Fonesig Nia Griffith AS ag Becky Gittins AS

Meddai'r Fonesig Nia Griffith AS: "Mae Gwynt y Môr yn dangos sut y gall prosiectau ynni adnewyddadwy gynnig manteision gwirioneddol, nid yn unig trwy bweru cannoedd o filoedd o gartrefi a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond drwy gryfhau cymunedau, creu cyfleoedd, a gwella sgiliau.

"Mae'n ysbrydoledig gweld y cyfraniad parhaus y mae'n ei wneud i ddyfodol mwy cynaliadwy i Gymru."

Ers ei sefydlu, mae Gwynt y Môr wedi cefnogi cymunedau lle mae'n gweithredu'n rheolaidd, ac wedi sbarduno buddsoddiad rhanbarthol.

Arweiniodd y prosiect at ddatblygiadau allweddol ym Mhorthladd Mostyn, lle adeiladodd RWE ganolfan Gweithrediadau a Chynnal a Chadw bwrpasol sy'n darparu dros 100 o swyddi lleol medrus hirdymor.

Gosodwyd llwyfan glanio pontŵn newydd hefyd fel y gallai Llongau Trosglwyddo Criwiau (CTVs) fod ar waith yn ystod llanw isel; datblygiad arloesol a arweiniodd at hybu elfen gystadleuol y porthladd.

# Plant o ysgolion yn y Rhyl a Phrestatyn yn ymuno â phrentisiaid RWE

Mae Technegwyr Tyrbinau Gwynt sy'n brentisiaid RWE yng Ngholeg Llandrillo wedi croesawu mwy na 350 o blant o'r Rhyl a Phrestatyn i ddatblygu eu sgiliau mewn Her Ynni Adnewyddadwy fel rhan o fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Dechreuodd y prosiect gydag ymweliadau gan ddisgyblion o Ysgol Emmanuel, Ysgol Gynradd Sirol Christchurch ac Ysgol Dewi Sant, yn y Rhyl, yna Ysgol Uwchradd Prestatyn ac Ysgol Uwchradd y Rhyl yn yr wythnosau canlynol.

Gyda chymorth prentisiaid RWE sy'n astudio yng nghanolfan hyfforddi tyrbinau gwynt y coleg, aeth y plant ati i osod y tyrbinau at ei gilydd o becyn, cyn defnyddio ffaniau cludadwy i bweru'r batris cysylltiedig.

Yna tynnwyd y batris o'r tyrbinau a'u trawsnewid yn geir, a allai deithio ar eu pennau eu hunain gan ddefnyddio'r ynni oedd wedi'i storio.

Meddai Jack Parry Jones, athro yn Ysgol Emmanuel: "Ar ôl siarad â'r athro Blwyddyn 6 arall, dywedodd y ddau ohonom mor wych oedd y diwrnod ar ei hyd.

"Mae'r plant wedi mwynhau'n arw, ac roedd wedi'i gyflwyno mewn ffordd wych. Yn enwedig ar y diwedd pan aethon ni i weld



Prentis RWE Elizabeth Sharpe gyda disgyblion Ysgol Dewi Sant

y Tesla – dw i'n meddwl mai dyna oedd uchafbwynt y diwrnod yn fwy na thebyg! Mae'r plant wedi dysgu am bopeth y mae'r darlithwyr wedi siarad amdano, ac maen nhw wedi mwynhau'n arw.

"Mae un neu ddau o'r plant wedi dweud eu bod eisiau dod i'r coleg i astudio peirianneg - mae wedi gwneud iddyn nhw sylweddoli bod cymaint o gyfleoedd posibl iddyn nhw."

Adeiladwyd canolfan hyfforddi technoleg ynni adnewyddadwy Grŵp Llandrillo Menai mewn partneriaeth â RWE, sy'n arwain datblygiad Awel y Môr. Gydag ardal wasanaethu a chynnal a chadw tyrbinau gwynt ar raddfa ddiwydiannol, hon yw'r ganolfan hyfforddi i brentisiaid ar safleoedd ynni adnewyddadwy RWE ledled y DU.

## Crynodeb cynadleddau

Mae tîm Awel y Môr wedi bod ar daith, yn rhannu newyddion a gwybodaeth am y prosiect gyda darpar gyflenwyr, cynrychiolwyr etholedig a grwpiau eraill mewn cynadleddau yng Nghaerdydd, Llundain a Llandudno yn ystod y misoedd diwethaf.

Roedd busnesau sydd â diddordeb mewn cyflenwi prosiectau RWE gan gynnwys Awel y Môr, yn cael cyfle i siarad ag aelodau o dîm y prosiect, arbenigwyr caffael a pheirianneg, yn ogystal â chlywed am brofiadau ac am gadwyni cyflenwi cwmnïau eraill yn y gadwyn gyflenwi.




Global Offshore Wind, Llundain: Cynhaliodd y tîm drafodaeth gyda darpar gwmnïau cadwyn gyflenwi ar yr heriau i gymryd rhan yn y prosiect a sut y gellir goresgyn y rhain, ochr yn ochr ag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans.




Yr Arweinydd Prosiect Philippa Powell a'r Uwch Reolwr Caniatâd Jo Pickard gyda'r Prif Weinidog Eluned Morgan



Josh Morris, Alice Collins ac Jordan O'Neill yn Ynni Morol Cymru, cynhadledd ynni morol flynyddol fwyaf Cymru

## Degawd o gynhyrchu ynni i'r wlad

Mae Gwynt y Môr, fferm wynt fwyaf Cymru ar hyn o bryd, wedi'i lleoli ger safle arfaethedig ein prosiect: fferm wynt alltraeth Awel y Môr.

Dechreuodd gynhyrchu ynni yn 2013, yna cwblhawyd y gwaith adeiladu ac agorwyd y safle yn 2015.

Sven Utermöhlen, Prif Weithredwr Gwynt Alltraeth RWE: "Mae degawd o weithredu yng Ngwynt y Môr yn garreg filltir o bwys i RWE, y rhanbarth, a'n tîm angerddol.

"Mae'r fferm wynt hon wedi bod wrth wraidd trawsnewid Gogledd Cymru yn ganolfan arbenigedd ar gyfer ynni gwynt ar y môr ac mae wedi gosod glasbrint ar gyfer prosiectau newydd posibl ledled y DU."

### Ffeithiau a ffigurau:

Rhwng Mehefin 2015 a Mehefin 2025, amcangyfrifir bod Gwynt y Môr wedi cynhyrchu pŵer glân sy'n cyfateb i:

- Bweru cyfanswm o tua 5.5 miliwn o gartrefi nodweddiadol yng Nghymru a'r DU, (neu 550,000 o gartrefi'r flwyddyn am 10 mlynedd
- Gyrru cyfanswm o 100 biliwn cilomedr o ran Cerbydau Trydan
- Pweru cyfanswm o tua 205 miliwn o fylbiau golau 24/7 am flwyddyn



## Bydd RWE yn nodi canmlwyddiant trychineb Dolgarrog

Yr hydref hwn, bydd staff RWE sy'n gweithio ar ei safle ym mhentref Dolgarrog, Conwy, yn nodi 100 mlynedd ers y trychineb pan dorrodd yr argae yn y pentref.


Digwyddodd y trychineb pan dymchwelodd argae Eigiau ar ôl sawl wythnos o law trwm, gan ollwng 70bn galwyn o ddŵr i'r dyffryn a lladd 10 o oedolion a 6 o blant wrth i nifer o adeiladau gael eu sgubo i ffwrdd. Byddai nifer y marwolaethau wedi bod yn uwch pe na bai nifer sylweddol o bobl wedi mynd i theatr y pentref, a oedd yn uwch yn y dyffryn, i wylio ffilm.

O ganlyniad i'r twll ym mur yr argae, na chafodd ei adnewyddu wedyn, sefydlwyd fframwaith rheoleiddio a chanllawiau ar gyfer safleoedd dŵr a thrydan dŵr newydd.

Bydd RWE a'r staff, sydd wedi gweithredu a chynnal a chadw'r safle ers 2002, yn cymryd rhan ac yn cefnogi'r mentrau hanesyddol a choffáu dan arweiniad y gymuned.

Mae Gorsaf Bŵer Dolgarrog yn ganolfan reoli a lleoliad gweithredol ar gyfer pum safle trydan dŵr RWE yng Nghymru.

Mae'r safle, a phortffolio trydan dŵr ehangach Cymru, wedi elwa o fuddsoddiad rheolaidd, gan gynnwys gwaith adnewyddu gwerth £15m yn 2014.



Gorsaf Bŵer trydan-Dŵr Dolgarrog a'r morllyn Surf Snowdonia, o'r blaen y adeiladwaith ar y gwesty

## Amserlen bresennol

DYMA LLE YDYM ARNI

### Medi 2023
Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net

### Tachwedd 2023
Trwyddedau morol yn cael eu dyfarnu gan Cyfoeth Naturiol Cymru

### Gwanwyn a haf 2024
Ymchwiliadau tir ar y tir ac ar y môr yn cael eu cynnal, ymchwiliadau archeolegol a gwaith ar gyfer madfallod dŵr cribog

### 2025
Gwaith ymgysylltu a dylunio parhaus

### 2026-27
Cynnal rhagor o ymchwiliadau i safleoedd ar y môr a mesurau lliniaru ecolegol ar y tir

### 2027
Dyddiad cynharaf cyfredol ar gyfer dechrau adeiladu ar y tir

### 2029
Dyddiad cynharaf cyfredol ar gyfer dechrau adeiladu ar y môr

### 2030
Y dyddiad cynharaf ar gyfer cynhyrchu

Mae pob dyddiad yn ddangosol ac mae'n bosibl y byddant yn newid